

# Pennod 18: Darpariaethau Amrywiol ac Atodol

## CYFLWYNIAD

- 18.1 Ym Mhennod 18 o'n Papur Ymgynghori ymdriniwyd â nifer o ddarpariaethau amrywiol sy'n ymwneud â swyddogaethau o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Yn fras, gellir ystyried y darpariaethau hyn o dan bedwar pennawd, sef:
- 1) cymhwyso'r system gynllunio at gategoriâu penodol o dir, gan gynnwys ymgwymerwyr statudol, y Goron ac Eglwys Loegr;
  - 2) gweithrediadau mwyngloddio;
  - 3) darpariaethau cyffredinol sy'n ymwneud â ffioedd a thaliadau, ymholiadau ac achosion eraill, a chymhwyso Deddf Iechyd y Cyhoedd;
  - 4) diffiniadau.
- 18.2 Nodwyd gennym, er na ddeuir ar draws llawer o'r darpariaethau amrywiol hyn yn aml, ei bod yn werth ystyried a ydynt yn addas at y diben.<sup>1</sup> Yn wir, mae'n bwysig iawn bod darpariaethau nas defnyddir yn aml yn hawdd i'w deall, am ei bod yn ddigon posibl bod y sawl sy'n darllen darpariaethau o'r fath yn gwneud hynny am y tro cyntaf.

## YMGYMERWYR STATUDOL

***Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r Bil wneud y canlynol: (1) rhesymoli hyd y gellir y cyrff neu'r categorïau o gyrff yr ymdrinnir â hwy fel ymgwymerwyr statudol at ddibenion rhan o'r Cod neu'r Cod cyfan; a (2) darparu ar gyfer pob ymgymerydd neu gategori o ymgymerydd yr hyn yr ystyrir mai hwn yw ei "dir gweithredol" a phwy yw'r "Gweinidog priodol" (Cwestiwn 18-1 o'r Ymgynghoriad).***

- 18.3 Yn ein Papur Ymgynghori, nodwyd gennym fod nifer o ddarpariaethau arbennig yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac yn y rheoliadau o dan y ddeddf honno, sy'n ymwneud â chymhwyso'r system gynllunio at dir penodol sy'n eiddo i ymgwymerwyr statudol, ac at waith datblygu ganddynt.<sup>2</sup>
- 18.4 Yn fras, mae ymgwymerwyr statudol yn gyrff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus megis dŵr, trydan, draeniau, rheilffyrdd, camlesi a gwasanaethau post. Nodwyd gennym fod y diffiniad o "statutory undertaker" yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn un eang iawn,<sup>3</sup> er bod cyrff penodol ond yn cael eu cynnwys at ddibenion

---

<sup>1</sup> Papur Ymgynghori, para 18.6.

<sup>2</sup> Papur Ymgynghori, paragraffau 18.7 i 18.27.

<sup>3</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 262, a ddiwygiwyd gan Ddeddf Cyfleustodau 2000, Deddf Trafnidiaeth 2000, 2001 OS 1149, a 2013 OS 755.

penodol. Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995<sup>4</sup> yn rhoi diffiniad arall, sy'n debyg iawn i'r un yn y Ddeddf. Fodd bynnag, yn anffodus, nid yw'r ddau ddiffiniad yn gyson ym mhob ffordd.<sup>5</sup>

- 18.5 Mae a wnelo llawer o'r darpariaethau perthnasol, yn y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir neu Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ei hun, yn ymwneud â'r hyn y gall ymgymerydd statudol ei wneud ar eu tir gweithredol. Mae adran 263 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn diffinio "operational land" fel tir a ddefnyddir gan ymgymerydd statudol at ddibenion ymgymryd â'i ymgymeriad, ac y delir buddiant at y diben hwnnw, ond nid yw'n cynnwys tir sy'n gymaradwy â thir yn gyffredinol.<sup>6</sup>
- 18.6 Nodwyd hefyd y ffaith, er yr ymdrinnir â cheisiadau cynllunio ar gyfer gwaith datblygu gan ymgymerydd statudol gan awdurdodau cynllunio fel arfer yn y ffordd arferol, o dan adran 266 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gall yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Gweinidog priodol roi cyfarwyddyd i'r perwyl y bydd yn ymdrin â materion penodol ar y cyd. Mae adran 265 yn diffinio'r term "appropriate minister" mewn perthynas â gwahanol gategoriâu o ymgymerydd statudol. Yn gyffredinol, mae'n cyfeirio at gyfrifoldeb y gweinidog am y maes gweithgarwch y mae a wnelo'r ymgymeriad ag ef.<sup>7</sup>
- 18.7 Roeddem yn tybio bod y gyfraith yn y maes hwn yn ddryslyd, yn arbennig am y bydd yn anghyfarwydd i lawer. Felly, argymhellwyd gennym y dylai fod – hyd y gellir – un diffiniad wedi'i resymoli o "ymgymerydd statudol" yn y Bil, a fyddai hefyd yn gymwys i reoliadau a wneir o dan y Bil. Argymhellwyd gennym hefyd, ar gyfer pob ymgymerydd neu gategori o ymgymerydd, y dylai'r Bil ddarparu'r hyn yr ystyrir ei fod yn "dir gweithredol" a phwy yw'r "Gweinidog priodol".
- 18.8 O'r 33 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 24 yn cytuno â'r cynnig, gan gynnwys yr Arolygiaeth Gynllunio, Cymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd (PEBA), nifer o awdurdodau a Cyfoeth Naturiol Cymru (sy'n ymgymerydd statudol ei hun). Roedd naw ymgynghorai yn ansicr, ond nid oedd yr un yn anghytuno â'r cynnig.
- 18.9 Roedd sawl ymgynghorai yn derbyn bod angen crydgrynhoi ac egluro yn y maes hwn. Roedd Cymdeithas y Cyfreithwyr yn cytuno y dylai'r cod ddefnyddio "... a single and consistent definition of a statutory undertaker". Nododd CBS Rhondda Cynon Taf "the

---

<sup>4</sup> Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir), erthygl 1(2), a ddiwygiwyd gan Ddeddf Cyfleustodau 2000, a 76, Gorchymyn Deddf Gwasanaethau Post 2011 (Addasiadau a Diwygiadau Canlyniadol) 2011 (OS 2085), Atodlen 1, a Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (OS Rhif 755), Atodlen 4.

<sup>5</sup> Papur Ymgynghori, paragraffau 18.12 – 18.13.

<sup>6</sup> Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 264(3) – (6) yn darparu rhestr o feini prawf ychwanegol ar gyfer tir gweithredol, y mae'n rhaid i un neu fwy ohonynt fod yn gymwys. Ymhlith y meini prawf mae'r canlynol: roedd y tir yn cael ei ddal gan yr ymgymerydd cyn 6 Rhagfyr 1968, ac yn cael ei ddefnyddio wedyn fel tir gweithredol; mae'r tir yn destun gorchymyn datblygu arbennig neu orchymyn datblygu lleol; trosglwyddwyd y tir i'r ymgymerydd oddi wrth ymgymerydd arall o dan unrhyw un o'r deddfau ad-drefnu / preifateiddio a nodir yn 264(4), ac roedd yn cael ei ddal fel tir gweithredol yn union cyn iddo gael ei drosglwyddo.

<sup>7</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 265(1)(a). Yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r Gweinidog priodol mewn perthynas â gwaith datblygu ar dir gweithredol yng Nghymru gan gyflenwyr pŵer hydrolog, darparwyr gwasanaethau post cyffredinol, cludwyr nwy, deiliaid trwyddedau o dan y Ddeddf Trydan a gweithredwyr porthladdoedd ymddiriedolaethau a gedwir yn ôl a phorthladdoedd ar draws harbyrau.

law relating to statutory undertakers can be confusing” a “a lot of time can be spent gaining an understanding of the provisions and how they apply.” Nododd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Parciau Cenedlaethol Cymru a CS Caerfyrddin fod dryswch ar hyn o bryd ynghylch p’un a oedd Parciau Cenedlaethol yn ymgymerydd statudol.

- 18.10 Yn benodol, roedd cryn gefnogaeth o blaid nodi’n fwy eglur pwy yw’r “Gweinidog priodol.” Nododd SP Energy Networks, sy’n ymgymerydd statudol yng ngogledd Cymru, fod “clarity on the appropriate minister is very welcomed”. Croesawodd yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, sy’n ymgymerydd statudol mewn perthynas â mordwyo mewndirol, ddarpariaeth bellach ynghylch pwy oedd y “gweinidog priodol”; yn ogystal ag Arqiva, sy’n ymgymerydd statudol mewn perthynas â chyfathrebiadau electronig.
- 18.11 Roedd ymatebion ansicr yn tueddu i adlewyrchu pryder y gallai gwneud y gyfraith yn fwy eglur yn y maes hwn arwain at ganlyniadau anfwriadol, gan gynnwys y posibilrwydd y caiff ymgymerydd statudol sy’n bodoli eisoes eu hepgor o’r diffiniad, ac arwain at ddiffiniad rhy gyfyngedig o dir gweithredol. Roedd y Grid Cenedlaethol o’r farn bod ein cynnig “makes sense in principle” ond dywedodd y bydd yn bwysig ymgynghori ynghylch fersiynau diwygiedig drafft er mwyn osgoi canlyniadau anfwriadol. Nododd yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd:

Whilst we are not against “rationalising” the list of bodies for the purposes of the Code, it is essential that the Trust and other statutory navigation authorities remain covered in any list or definition... Equally, whilst we are not against further clarity as to the definition of “operational land” (which should include any land directly or indirectly used for the purpose of carrying out a statutory undertaking), it is essential that this does not cut down extent of the definition of “operational land” in the TCPA.

- 18.12 Nid oedd yn fwriad gennym hepgor unrhyw ymgymerydd statudol sy’n bodoli eisoes o’r diffiniad na gwneud y diffiniad presennol o dir gweithredol yn gulach. Rydym yn derbyn pwynt y Grid Cenedlaethol ei bod yn bosibl y bydd angen ymgynghori ymhellach er mwyn osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol.
- 18.13 Tynnodd Cymdeithas y Cyfreithwyr sylw at y ffaith bod ymgymerydd statudol, y Gweinidogion priodol a hyd yn oed y diffiniad o dir gweithredol o bosibl, yn agored i newid gwleidyddol ac argymhellodd y dylid diwygio’r diffiniadau perthnasol drwy orchymyn. Rydym yn cytuno bod natur gyfnewidiol prosesau darparu gwasanaethau cyhoeddus yn y DU yn golygu bod angen diffiniadau y gellir eu diwygio’n hawdd. Felly, rydym yn addasu ein cynnig i’r perwyl y dylai’r ddeddfwriaeth gael ei symleiddio hyd y gellir ac y dylai unrhyw ymgymerydd statudol gael ei darparu mewn canllawiau (y *Llawlyfr Rheoli Datblygu* yn ôl pob tebyg), gyda’r Gweinidog priodol a’i dir gweithredol yn cael eu nodi ym mhob achos. Mewn achosion priodol, yn ddiau byddai rhestr o’r fath yn darparu mai dim ond at ddibenion penodol y mae corff penodol yn ymgymerydd statudol.
- 18.14 I ddechrau bydd rhestr o’r fath yn cynnwys yr holl gyrff sy’n ymgymerydd statudol ar hyn o bryd o dan ddeddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth sy’n ymwneud â chynllunio (yn enwedig Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a’r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir).

## Argymhelliad 18-1.

### Argymhellwn y dylid

- (1) **symleiddio darpariaethau'r Bil sy'n ei gymhwyso at ymgwymerwyr statudol hyd y gellir, er mwyn nodi'r cyrff hynny sy'n ymgwymerwyr statudol at unrhyw un o ddibenion y Bil neu bob un ohonynt ac unrhyw reoliadau a wneir oddi tano;**
- (2) **cynnwys un rhestr o gyrff o'r fath yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys mewn perthynas â phob ymgymerydd o'r fath:**
  - **at ba ddiben y caiff y corff ei wneud yn ymgymerydd statudol;**
  - **y Gweinidog priodol;**
  - **ei dir gweithredol.**

***Cynigiwyd dros dro gennym, pan gaiff y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir ei ddiweddarar nesaf, y dylid ystyried gwahanu darpariaethau sy'n ymwneud â gwaith datblygu gan ymgwymerwyr statudol, y Goron, gweithredwyr mwynau a chyrff tebyg eraill oddi wrth y rhai sy'n ymwneud â gwaith datblygu yn gyffredinol (Cwestiwn 18-2 o'r Ymgynghoriad).***

- 18.15 Yn ein Papur Ymgynghori, nodwyd gennym fod darpariaethau Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995 sy'n ymdrin ag ymgwymerwyr statudol yn llenwi cryn dipyn o'r ddogfen gyfan, ond mai anaml y mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr y ddogfen yn dod ar eu traws.<sup>8</sup> Awgrymwyd gennym y gallai fod yn ddefnyddiol pe bai'r darpariaethau sy'n ymwneud â gwaith datblygu gan ymgwymerwyr statudol, y Goron, gweithredwyr mwynau a chyrff tebyg eraill gael eu rhoi mewn adran ar wahân o'r ddogfen i'r rhai sy'n ymwneud â gwaith datblygu yn gyffredinol.<sup>9</sup>
- 18.16 O blith y 33 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 15 yn cytuno â'r cynnig, roedd dau yn ansicr ac roedd 16 yn anghytuno ag ef.
- 18.17 Ymhlith y rhai a oedd yn cytuno â'r cynnig roedd PEBA, y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol ("RTPI"), Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru, yr Arolygiaeth Gynllunio a nifer o awdurdodau cynllunio – heb sylwadau pellach ar y cyfan.
- 18.18 Roedd y rhan fwyaf o'r ymgynghoreion a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn gwneud hynny ar y sail bod yn well ganddynt un ddogfen. Nododd Caerffili a POSW Deddwyrain Cymru "the existing system appears to work well and could be left alone without any disbenefit." Dadleuodd y Grid Cenedlaethol

<sup>8</sup> Papur Ymgynghori, para 18.29.

<sup>9</sup> Gweler Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Atodlen 2, Rhannau 12, 13 (awdurdodau lleol ac awdurdodau priffyrdd); Rhannau 14 i 18 (ymgwymerwyr statudol); Rhan 20 (Awdurdod Glo); Rhan 24 (gweithredwyr cod cyfathrebiadau electronig); a Rhannau 34 i 38 (y Goron).

the document is largely a technical tool for professionals with significant experience of using multiple Parts of the Order. The current structure does not seem to present this user group with any significant challenges.

- 18.19 Ym marn Arqiva nid oedd unrhyw angen penodol am y cynnig hwn, gan nodi “someone only interested in householder development can simply look at that part”.
- 18.20 Cynigiwyd dros dro gennym y dylid ystyried ailstrwythuro'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn y ffordd a nodwyd gennym. Nodwn yr ymateb i'r awgrym hwnnw; efallai y byddai'n well mabwysiadu dull gweithredu arall, megis rhoi hawliau datblygu a ganiateir sy'n ymwneud ag anheddau (a geir yn Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir ar hyn o bryd) mewn gorchymyn ar wahân – ar yr un sail bod “ceisiadau gan ddeiliaid tai” bellach yn ddarostyngedig i ofynion gweithdrefnol gwahanol a symlach. Ond mae hwn yn fater y gellir ei ailystyried pan gaiff y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir ei ddiwygio nesaf.

#### **Argymhelliad 18-2.**

**Argymhellwn, pan gaiff y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir ei ddiwygio nesaf, y dylid ystyried ei rannu'n ddau orchymyn, sef un sy'n ymdrin â hawliau datblygu a ganiateir sy'n ymwneud ag anheddau ac un sy'n ymdrin ag achosion eraill.**

#### ***Cynigiwyd dros dro gennym na ddylid ailddatgan adran 283 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (sy'n ymwneud ag arddangos hysbysebion ar dir gweithredol ymgymeryr statudol) yn y Cod (Cwestiwn 18-3 o'r Ymgynghoriad).***

- 18.21 Mae adran 283 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu nad yw adrannau 266 i 270 a 279(1), (5) a (6) – y mae pob un ohonynt yn gymwys i roi caniatâd cynllunio – yn gymwys i arddangos hysbysebion ar dir gweithredol ymgymeryr statudol. Nodwyd gennym fod angen cael caniatâd i arddangos hysbysebion ar dir o'r fath o dan y Rheoliadau Hysbysebion ac yr ystyrir, wedyn, eu bod wedi cael caniatâd cynllunio yn awtomatig.<sup>10</sup> Felly, ein barn dros dro oedd bod adran 283 yn ddiangen ac nad oes angen ei hailddatgan yn y Cod.
- 18.22 Roedd pob un o'r 24 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'n cynnig dros dro, heb unrhyw sylwadau pellach.

---

<sup>10</sup> Yn rhinwedd adran 222: Papur Ymgynghori, para 18.33.

### Argymhelliad 18-3.

**Argymhellwn na ddylid ailddatgan adran 283 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (sy'n ymwneud ag arddangos hysbysebion ar dir gweithredol ymgwymerwyr statudol) yn y Cod.**

***Cynigiwyd dros dro gennym na ddylid ailddatgan adran 316A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (sy'n galluogi gwneud rheoliadau sy'n ymwneud â chaniatâd cynllunio ar gyfer gwaith datblygu gan awdurdodau lleol sy'n ymgwymerwyr statudol ac arddangos hysbysebion ar eu tir gweithredol) yn y Bil (Cwestiwn 18-4 o'r Ymgynghoriad).***

18.23 Awgrymwyd gennym yn ein Papur Ymgynghori fod adran 316A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n ymwneud ag ymgwymerwyr statudol sy'n awdurdodau cynllunio, yn ddiangen am nad oedd unrhyw reoliadau erioed wedi cael eu gwneud o dan yr adran honno.<sup>11</sup> Cynigiwyd dros dro gennym na ddylid ei hailddatgan yn y Cod.

18.24 O blith y 22 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 21 yn cytuno â'r cynnig. Nid oedd Cymdeithas y Cyfreithwyr na Huw Williams (Geldards LLP) ymwybodol o "... any local authority statutory undertakings in Wales" a gwnaethant ddadlau na ddylid ailddatgan y ddarpariaeth. Gwnaeth y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol a CBS Rhondda Cynon Taf sylwadau tebyg.

18.25 Anghytunodd Sefydliad y Peirianwyr Sifil Cymru, ar y sail y gallai'r ddarpariaeth fod yn ddefnyddiol yn y dyfodol:

There has been discussion in South Wales for some time on the subject of providing a metro for transportation purposes. This metro may include a street tramway or light railway system within Cardiff, which may be operated by or on behalf of either the local authority or the Welsh ministers. These regulations may become necessary in this eventuality and they should be retained therefore.

18.26 Rydym yn tybio, pe bai prosiect o'r fath yn cael ei wireddu, y byddai yn erbyn cefndir Deddf breifat neu orchymyn cydsyniad datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008, y gallai'r naill neu'r llall ohonynt wneud darpariaeth yn debyg i adran 283 – yn ddiau yn amodol ar ddiwygiadau priodol. Fel arall, gellid diwygio'r rheoliadau a ragwelir yn Argymhelliad 18-1 uchod i gynnwys awdurdodau lleol sy'n weithredwyr mentrau tebyg i'r rhai a redir gan ymgwymerwyr statudol sy'n bodoli eisoes.

---

<sup>11</sup> Papur Ymgynghori, para 18.34. Fodd bynnag, nodwyd gennym y gallai'r pŵer fod yn berthnasol os bydd awdurdod lleol yn penderfynu gweithredu rheilffordd ysgafn neu dramffordd yn y dyfodol.

#### Argymhelliad 18-4.

**Argymhellwn na ddylid ailddatgan adran 316A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n ymwneud â chaniatâd cynllunio ar gyfer gwaith datblygu gan awdurdodau lleol sy'n ymgwymerwyr statudol ac arddangos hysbysebion ar eu tir gweithredol) yn y Bil.**

#### MWYNAU

18.27 Roedd y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol, sef y prif gorff masnach yn y sector sy'n cynrychioli pob un o'r prif weithredwyr mwynau, yn gwrthwynebu ein cynnig ynglŷn â'r ffordd y dylid trin lle gweithrediadau mwynol o fewn y system gynllunio. Tynnodd sylw penodol at nodweddion cloddio am fwynau a ddisgrifir gennym ym mharagraff 18.58 o'r Papur Ymgynghori, a phwysleisiodd bwysigrwydd mwynau i gymdeithas. Derbyniwn y gall datblygiadau mwynol ddod â llawer o fanteision, yn ogystal â mathau eraill o ddatblygiad. Yn y Papur roeddem yn ceisio nodi'r nodweddion hynny ar weithrediadau mwynol a oedd yn wahanol i ddatblygiad yn gyffredinol.

18.28 Nodwn hefyd bryder y Gymdeithas fod y broses o gynllunio mwynau wedi'i hymyleiddio rywfaint gan Lywodraethau olynol, i'r graddau fel y gallai fod angen cynnal adolygiad mwy sylfaenol wedi'i lywio gan bolisi o'r system bresennol. Ond, fel y'i cydnabyddir gan y Gymdeithas, mae ein cylch gorchwyl yn canolbwyntio ar ddiwygiadau technegol ac nid yw'n cynnwys materion polisi ehangach.

***Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r Bil newydd ddefnyddio fel arfer – yn lle'r term “winning and working of minerals” – y term “gweithrediadau mwyngloddio”, wedi'i ddiffinio fel ei fod yn cynnwys: (1) cloddio a gweithio mwynau mewn, ar neu o dan dir, p'un ai drwy weithio ar wyneb y ddaear neu dan ddaear; (2) gwaredu deunydd o unrhyw ddisgrifiad o ddyddodion gweithio mwynau, dyddodion lludw tanwydd maluriedig neu ludw neu glincer ffwrnais arall neu ddyddodion haearn, dur neu slag metalig; a (3) echdynnu mwynau o arglawdd rheilffordd nas defnyddir (Cwestiwn 18-5 o'r Ymgynghoriad).***

18.29 Yn y Papur Ymgynghori, nodwyd gennym y diffiniadau o “minerals” a “the winning and working of minerals” yn adran 336 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a'r diffiniadau o “mining operations” yn adran 55 a'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir. Nodwyd gennym fod y diffiniadau yn gorgyffwrdd i raddau helaeth. Felly, awgrymwyd gennym y dylid eu rhesymoli ac y dylai'r term “winning and working of minerals” gael ei ddisodli gan “gweithrediadau mwyngloddio”, wedi'i ddiffinio i gynnwys cloddio a gweithio mwynau mewn, ar neu o dan dir, p'un ai drwy weithio ar wyneb y ddaear neu dan ddaear, yn ogystal â'r gwahanol weithrediadau y cyfeirir atynt yn adran 55(4).<sup>12</sup>

18.30 O blith y 30 o ymgyngeirion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 27 yn cytuno â'r diffiniadau a awgrymwyd.

<sup>12</sup> Papur Ymgynghori, paragraffau 18.50 i 18.57.

- 18.31 Roedd Cyngor Caerdydd yn pryderu y gallai hyn olygu y byddai'r gofynion i gynnal adolygiadau cyfnodol o ganiatadau mwynau (yn Nedd Cynllunio a Digolledu 1991) hefyd yn gymwys i ddyddodion gweithio mwynau ac argloddiau rheilffyrdd nas defnyddir. Mae'r diffiniad presennol o "hen ganiatadau mwyngloddio"<sup>13</sup> yn cyfeirio at ganiatâd ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys cloddio a gweithio mwynau neu ddyddodi gwastraff mwynol ac mae'n debyg na fyddai'n cynnwys y caniatadau y cyfeiriwyd atynt gan Gyngor Caerdydd. Ond ni fyddai'r diffiniad newydd o "weithrediadau mwyngloddio" rydym yn ei gynnig yn gymwys i ddehongli Deddf 1991 ac, felly, ni fyddai'r gofyniad i gynnal adolygiad cyfnodol yn gymwys ychwaith.
- 18.32 Awgrymodd y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol, sef y prif gorff masnach ar gyfer y diwydiant mwynau, y dylai'r diffiniad gwmpasu datblygiad mwynau yn ei gyfanrwydd o'r dechrau i'r diwedd, gan gynnwys prosesau cynyddu gwerth mwynau ("beneficiation") a gweithgareddau eraill a all gael eu cynnal ar safle. Nodwn fod pob un o'r diffiniadau presennol yn y Ddeddf, a'r diffiniad a gynigiwyd gennym i'w gynnwys yn y Bil, yn rhai cynhwysol – nid oes unrhyw ddiffiniad hollgynhwysfawr o unrhyw un o'r termau sy'n ymwneud ag echdynnu mwynau unrhyw le yn y ddeddfwriaeth.<sup>14</sup> Yn ein barn ni, mae'r broses gyfan y cyfeiriwyd ati gan y Gymdeithas o fewn y cysyniad o "weithrediadau mwyngloddio", yn union fel mae gwesty yn cynnwys pob un o'r gweithgareddau atodol sy'n digwydd yn y diwydiant lletygarwch, ac nid dim ond yr ystafelloedd y mae gwesteion yn cysgu ynddynt.<sup>15</sup>
- 18.33 Mae'r Gymdeithas yn cyfeirio at gyfraith achosion yn egluro ystyr rhai o'r diffiniadau presennol. Nid yw hyn yn broblem, am na fyddai'r diffiniad a gynigir yn ymgorffori pob un o'r elfennau a geir yn y diffiniad presennol, sy'n golygu y byddai'r gyfraith achos yn gymwys o hyd.
- 18.34 Mae hefyd yn awgrymu y gallai fod yn ddefnyddiol egluro'r termau "mineral resource" a "mineral reserve". Yn ein barn ni, gallai hynny fod yn ddefnyddiol mewn canllawiau, ond nad oes angen gwneud hynny mewn deddfwriaeth, gan na cheir y naill derm na'r llall yn Nedd Cynllunio Gwlad a Thref 1990 na'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir.

---

<sup>13</sup> Deddf Cynllunio a Digolledu 1991 a 22, sy'n gymwys i Ddehongli Atodlen 2 i'r Ddeddf honno ac Atodlen 13 i Ddeddf yr Amgylchedd (gweler y Papur Ymgynghori, paragraffau 18.62 i 18.67).

<sup>14</sup> Papur Ymgynghori, paragraffau 18.50 i 18.57.

<sup>15</sup> *Emma Hotels v Secretary of State* (1981) 41 P&CR 255 (CA).



### **Argymhelliad 18-5.**

**Argymhellwn y dylai Bil newydd ddefnyddio fel arfer – yn lle'r term “winning and working” – y term “gweithrediadau mwngloddio”, wedi'i ddiffinio fel ei fod yn cynnwys:**

- (1) cloddio a gweithio mwynau mewn, ar neu o dan dir, p'un ai drwy weithio ar wyneb y ddaear neu dan ddaear;**
- (2) gwaredu deunydd o unrhyw fath o:**
  - ddyddodion gweithio mwynau;**
  - dyddodion lludw tanwydd maluriedig neu ludw neu glincer ffwrnais arall; neu**
  - ddyddodion haearn, dur neu slag metalig;**
- (3) echdynnu mwynau o arglawdd rheilffordd nas defnyddir.**

***Ein barn dros dro oedd nad yw Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (caniatadau mwynau a roddwyd cyn 1 Gorffennaf 1948) ac Atodlen 13 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (caniatadau mwynau a roddwyd rhwng 1 Gorffennaf 1948 a 22 Chwefror 1982) yn cyflawni unrhyw ddiben defnyddiol mwyach, ac na ddylid eu hailddatgan yn y Cod Cynllunio (Cwestiwn 18-6 o'r Ymgynghoriad).***

- 18.35 Gosododd Atodlen 2 i Ddeddf 1991 ac Atodlen 13 i Ddeddf 1995 ofynion mewn perthynas â llunio cofrestrau, i'w cyflawni erbyn dyddiadau sydd bellach yn y gorffennol pell. Mae'r cofrestrau hynny yn dal i fod yn berthnasol. Mae safleoedd gweithredol sydd wedi'u cynnwys yn y gofrestr bellach yn ddarostyngedig i'r gofyniad i gynnal adolygiad cyfnodol, o dan Atodlen 14 i Ddeddf 1995 (gweler isod); a gallai safleoedd segur, o leiaf mewn egwyddor, gael eu hailactifadu rywbyrd yn y dyfodol.<sup>16</sup>
- 18.36 Felly, awgrymwyd gennym na ddylid ailddatgan y ddwy Atodlen hyn yn y Cod Cynllunio newydd, ond y dylid eu diweddarw drwy wneud diwygiadau canlyniadol priodol i gyfeirio at y Cod.
- 18.37 O'r 28 o ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn, roedd 15 yn cytuno â'r cynnig. Tynnodd y 13 arall sylw at y ffaith bod y cofrestrau yn dal i fod yn berthnasol o dan y ddwy Ddeddf. Rydym yn cytuno, ond nid oeddem yn awgrymu y dylid diddymu Atodlen 2 i Ddeddf 1991 nac Atodlen 13 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995, ond y dylent aros ar y llyfr statud fel y maent, yn hytrach na chael eu hymgorffori yn y Bil.
- 18.38 Byddai'n bosibl ailddatgan y ddwy atodlen, ynghyd ag adran 22 o Ddeddf 1991 ac adran 96 o Ddeddf 1995 sy'n eu cyflwyno, yn y Bil newydd. Dyna oedd y dull gweithredu a fabwysiadwyd pan gafodd cyfraith gynllunio yn yr Alban ei chydgrynhoi

<sup>16</sup> Papur Ymgynghori, paragraffau 18.62 i 18.67.

yn 1997, pan ymddangosodd y darpariaethau cyfatebol fel Atodlenni 8 i 10 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (yr Alban) 1997.

- 18.39 Mater o ddrafftio yw pa ddull gweithredu y byddai'n well ei mabwysiadu; o safbwynt un o ddefnyddwyr y Bil efallai y bydd yn gliriach os na chânt eu cynnwys. Rydym wedi addasu'r argymhelliad er mwyn nodi'n glir nad ydym yn awgrymu y dylid diddymu'r ddwy Atodlen heb eu hailddatgan.

#### **Argymhelliad 18-6.**

**Argymhellwn nad oes angen ailddatgan Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (caniatadau mwynau a roddwyd cyn 1 Gorffennaf 1948) nac Atodlen 13 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (caniatadau mwynau a roddwyd rhwng 1 Gorffennaf 1948 a 22 Chwefror 1982) yn y Bil, ond y dylent aros fel y maent.**

***Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r Bil gynnwys y canlynol: darpariaethau i'r perwyl: (1) y darpariaethau a geir yn Atodlen 14 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (adolygiad cyfnodol o ganiatadau mwynau) ar hyn o bryd; a (2) y rhai a geir yn Atodlen 9 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (dirwyn caniatadau mwynau i ben) ar hyn o bryd (Cwestiwn 18-7 o'r Ymgynghoriad).***

- 18.40 Nodwyd gennym yn ein Papur Ymgynghori fod Atodlen 14 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 wedi cyflwyno system newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i ganiatadau mwynau yng Nghymru gael eu hadolygu bob 15 mlynedd, er mwyn sicrhau bod yr amodau sydd ynghlwm wrthynt yn parhau i fod yn gyfredol ac yn unol â safonau amgylcheddol cyfredol. Cynigiwyd dros dro gennym y dylid ailddatgan yr Atodlen yn y Bil, wedi'i gosod, o bosibl, gyda'r darpariaethau sy'n ymwneud â dirwyn gweithgareddau gweithio mwynau i ben a gwahardd ailddechrau'r gweithgareddau hynny a geir yn Atodlen 9 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.<sup>17</sup>
- 18.41 O blith y 29 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 28 yn cytuno â'r cynnig ac roedd un yn anghytuno ag ef. Prin oedd y sylwadau pellach a wnaed gan y rhai a oedd yn cytuno â'r cynnig.
- 18.42 Roedd y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol yn anghytuno â'r cynnig ar y sail na ddylai'r cyfnod adolygu o 15 mlynedd fod yn orfodol, ac mai dim ond pan oedd angen gwneud hynny y dylid cynnal adolygiad, "that is, where it is clearly established that the conditions pertaining to a development are outdated and therefore need to be the subject of a formal mineral review". Nododd y Gymdeithas fod y ddeddfwriaeth yn Lloegr wedi cael ei newid i adlewyrchu'r dull hwn o weithredu, gan Ddeddf Twf a Seilwaith 2013.
- 18.43 Mae hwn yn awgrym rhesymol, ond, yn ein barn ni, mae y tu hwnt i gwmpas diwygio technegol. At hynny, mae'n rhaid ystyried unrhyw newid sylweddol i rwymedigaethau amgylcheddol awdurdod cynllunio yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r

<sup>17</sup> Papur Ymgynghori, paragraffau 18.68 i 18.69.

Dyfodol (Cymru) 2015, y nododd sawl ymgynghorai ei bod yn berthnasol i'r Cwestiwn hwn o'r Ymgynghoriad.

- 18.44 Roedd Cyngor Caerdydd yn cytuno â'r cynnig mewn egwyddor ond awgrymodd, mewn perthynas â gorchmynion sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithgareddau gweithio mwynau gael eu dirwyn i ben:

It would be helpful to provide a clearer definition of what is meant by the term “substantial extent” in paragraph 3(2) of Schedule 9 of the TCPA 1990 [which provides that an authority may assume that mineral working has permanently ceased only when no operations have occurred, to any substantial extent, for at least two years]. A clearer definition of this term would enable planning authorities to bring forward more orders forward for approval by Welsh Ministers.

- 18.45 Rydym yn cytuno y dylid gwneud ystyr y term hwn yn fwy eglur ond, yn ein barn ni, byddai'n fwy priodol cynnwys hyn mewn canllawiau. Ymddengys nad oes unrhyw ganllawiau mewn grym yng Nghymru (nac yn Lloegr o ran hynny) ar hyn o bryd, ar ystyr “substantial extent”, ond nodwn fod *Minerals Planning Guidance*<sup>18</sup> yn rhoi rhywfaint o gymorth ar y pwynt hwn, mewn perthynas â safleoedd segur o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995:

“Substantial extent” is not defined in the statute and, in the absence of case law, the words have their common or everyday meaning. It will therefore be a matter of fact and degree in each case as to whether development has taken place to a substantial extent in the relevant period... “Substantial” clearly means more than token or cosmetic working to keep a permission active and there will need to be evidence of production (or depositing of mineral waste) over a reasonable period of time within the relevant period. Where part of the reserves of the quarry is physically detached from the main operation, if the detached part has planning permission and the main quarry is active, it should not be necessary for there to have been substantial extraction from the detached part for it to be included within the whole operation as an active site.<sup>19</sup>

- 18.46 Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried darparu canllawiau ar ystyr “substantial extent” ym mharagraffau 3(2), 5(3), 10(4) a 10(8) o Atodlen 9 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

---

<sup>18</sup> Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, *No 14, Environment Act 1995: review of mineral planning permissions* (diddymwyd yn 2014).

<sup>19</sup> Llywodraeth y DU, *Minerals Planning Guidance 14: Environment Act 1995 – review of mineral planning permissions* (1995), para 24.

## Argymhelliad 18-7.

Argymhellwn y dylai'r Bil gynnwys y canlynol:

- (1) y darpariaethau a geir yn Atodlen 14 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (adolygiad cyfnodol o ganiatadau mwynau) ar hyn o bryd;
- (2) y rhai a geir yn Atodlen 9 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (dirwyn caniatadau mwynau i ben) ar hyn o bryd.

Mewn perthynas â dirwyn caniatadau mwynau i ben, dylai Llywodraeth Cymru ystyried darparu canllawiau ar ystyr "substantial extent" yn Atodlen 9 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

***Cynigiwyd dros dro gennym y dylid cynnwys darpariaethau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar y ffurf y maent yn gymwys fel y'u haddaswyd gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Mwynau) 1995 (fel y byddant yn gymwys i ddatblygu mwynau) yn y Bil ei hun yn hytrach nag mewn is-ddeddfwriaeth (Cwestiwn 18-8 o'r Ymgynghoriad).***

- 18.47 Yn ein Papur Ymgynghori nodwyd gennym fod adran 315 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi addasiadau a diwygiadau i'r adrannau o'r Ddeddf a restrir yn Atodlen 16 yng nghyd-destun datblygu mwynau.<sup>20</sup>
- 18.48 Nodwyd gennym mai'r rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd yw Rheoliadau Cynlluniau Gwlad a Thref 1995,<sup>21</sup> nad ydynt yn hawdd i'w deall, ac nad ydynt wedi'u diwygio'n sylweddol ers iddynt ymddangos gyntaf.<sup>22</sup> Felly, cynigiwyd dros dro gennym y dylid cynnwys y diwygiadau a ragnodir yn y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Mwynau) yn y Bil ei hun.
- 18.49 Ymatebodd 30 o ymgynghoreion i'r cwestiwn hwn; roedd 29 yn cytuno â'r cynnig, gan gynnwys PEBA, Cymdeithas y Cyfreithwyr, yr Arolygiaeth Gynllunio a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol. Roedd un ymgynghorai yn ansicr.
- 18.50 Nododd y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol, "a more open review of the approach to minerals consents may be warranted" ond, serch hynny, roedd yn cytuno y dylid cynnwys darpariaethau digolledu arbennig sy'n ymwneud â dirymu caniatadau mwynau (o dan adran 107 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fel y'i haddaswyd gan y Rheoliadau Mwynau) yn y Bil ei hun.

---

<sup>20</sup> Papur Ymgynghori, para 18.70.

<sup>21</sup> OS Rhif 2863.

<sup>22</sup> Papur Ymgynghori, para 18.73.

## Argymhelliad 18-8.

Argymhellwn y dylid cynnwys darpariaethau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar y ffurf y maent yn gymwys fel y'u haddaswyd gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Mwynau) 1995 (mewn perthynas â datblygu mwynau) yn y Bil ei hun yn hytrach nag mewn is-ddeddfwriaeth.

## DARPARIAETHAU ARIANNOL

***Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r Bil gynnwys pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer graddfa ffioedd am gyflawni ganddynt hwy neu unrhyw awdurdodau cynllunio unrhyw un o'u swyddogaethau o dan y Cod, drwy gyhoeddi yn hytrach na rhagnodi, ar yr amod ei fod hefyd yn cynnwys cyfyngiad sy'n cyfateb i adran 303(10) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n sicrhau nad yw'r incwm o'r ffioedd a godir felly yn fwy na chost cyflawni'r swyddogaeth berthnasol (Cwestiwn 18-9 o'r Ymgynghoriad).***

- 18.51 Yn ein Papur Ymgynghori, nodwyd gennym fod gan Weinidogion Cymru bwerau bellach i wneud rheoliadau sy'n galluogi awdurdodau cynllunio i godi ffioedd am gyflawni unrhyw un o'u swyddogaethau o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.<sup>23</sup> Awgrymwyd i ni y byddai'n fwy cyfleus pe gallai lefelau ffioedd gael eu diwygio drwy eu cyhoeddi ar wefan yn hytrach na'u rhagnodi mewn offeryn statudol.
- 18.52 Nodwyd gennym fod y pŵer presennol i ragnodi ffioedd yn ddarostyngedig i adran 303(10), sy'n nodi na ddylai'r incwm sy'n dod i awdurdodau cynllunio a Gweinidogion Cymru o'r ffioedd a godir felly fod yn fwy na chost cyflawni'r swyddogaeth dan sylw. Ar yr amod y cedwid cyfyngiad o'r fath, ein barn dros dro oedd y byddai'n rhesymol i ffioedd newydd gael eu cyhoeddi yn hytrach na'u rhagnodi.
- 18.53 O'r 34 o ymatebion a gafwyd i'r cynnig hwn, roedd 26 yn cytuno â'r cynnig, gyda phedwar arall yn nodi eu bod yn cytuno'n fras ag ef, ond gan roi pwyslais cryf ar yr angen i unrhyw raddfa ffioedd newydd fod yn destun ymgynghoriad. Fel y nododd Huw Williams, mae'n debyg y cynhelid ymgynghoriad o'r fath sut bynnag, ond byddai darpariaeth yn y Bil i'r perwyl hwnnw yn fuddiol. Awgrymodd hefyd y dylai'r holl ffioedd a geid gan awdurdod gael eu clustnodi a'u defnyddio er budd y gwasanaeth dan sylw. Rydym yn deall atyniad y cynnig hwn ond yn amau a yw'n ymarferol.

---

<sup>23</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 303, fel y'i hamnewidiwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008, a 199. Gweler y Papur Ymgynghori, paragraffau 18.74 i 18.79.

## Argymhelliad 18-9.

### Argymhellwn y dylai'r Bil gynnwys

- (1) **pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer graddfa ffioedd am gyflawni ganddynt hwy neu awdurdodau cynllunio unrhyw un o'u swyddogaethau o dan y Cod, drwy gyhoeddi yn hytrach na rhagnodi;**
- (2) **darpariaeth sy'n cyfateb i adran 303(10) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (ni ddylai incwm o'r ffioedd a godir felly fod yn fwy na chost cyflawni'r swyddogaeth berthnasol); a**
- (3) **darpariaeth sy'n mynnu y rhoddir cyhoedduswydd priodol i unrhyw raddfa ffioedd arfaethedig cyn iddi gael ei chyhoeddi'n ffurfiol.**

## YMCHWILIADAU, GWRANDAWIADAU AC ACHOSION ERAILL

***Cynigiwyd dros dro gennym y dylai fod un ddarpariaeth yn y Bil yn darparu ar gyfer penderfynu ar anghydfodau ynglŷn ag iawndal gan yr Uwch Dribiwnlys o dan ddarpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â dirymu caniatâd cynllunio, ei addasu neu ei ddirwyn i ben, hysbysiadau stop dros dro, hysbysiadau stop, difrod a achosir gan fynediad at ddibenion gorfodi, diogelu coed, priffyrdd ac ymgymerydd statudol, o dan y darpariaethau yn Neddf Iawndal Tir 1961 ( Cwestiwn 18-10 o'r Ymgynghoriad).***

18.54 Yn ein Papur Ymgynghori nodwyd gennym fod nifer o ddarpariaethau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ymwneud ag iawndal, gan gynnwys adrannau 117 a 118 (dirymu, addasu a dirwyn i ben); adran 171H (hysbysiadau stop dros dro); adran 186 (hysbysiadau stop); adran 191 (difrod a achosir gan fynediad at ddibenion gorfodi); adran 203 (diogelu coed); adran 250 (priffyrdd); ac adran 282 (ymgymerwyr statudol).<sup>24</sup> Nodwyd gennym fod pob un o'r darpariaethau hyn yn gymwys, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i adran 4 o Ddeddf Iawndal Tir 1961, ac awgrymwyd gennym y byddai'n symlach i'r Bil gynnwys un ddarpariaeth i'r perwyl mai'r Uwch Dribiwnlys a ddylai benderfynu ar unrhyw fater sy'n ymwneud ag iawndal y mae anghydfod yn ei gylch o dan unrhyw un o'r darpariaethau hyn, a hynny o dan adran 4 o Ddeddf 1961.

18.55 Nid oedd yr un o'r 29 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cynnig hwn yn anghytuno ag ef. Dywedodd Cymdeithas y Cyfreithwyr "we agree that a single provision providing recourse to the Lands Chamber is appropriate, provides consistency and simplifies the Code". Roedd yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd o'r farn y byddai hyn yn "make the issue of who has responsibility for determining compensation disputes clear to all".

---

<sup>24</sup> Papur Ymgynghori, para 18.80.

### Argymhelliad 18-10.

Argymhellwn y dylai fod un ddarpariaeth yn y Bil yn darparu ar gyfer penderfynu ar anghydfodau ynglŷn ag iawndal gan yr Uwch Dribiwnlys o dan ddarpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â dirymu caniatâd cynllunio, ei addasu neu ei ddirwyn i ben, hysbysiadau stop dros dro, hysbysiadau stop, difrod a achosir gan fynediad at ddibenion gorfodi, diogelu coed, priffyrdd ac ymgymerwyr statudol, o dan y darpariaethau yn Neddf Iawndal Tir 1961.

***Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r Cod gynnwys pŵer i'w gwneud yn ofynnol i dystiolaeth arbenigol mewn ymchwiliadau ac achosion eraill (gan gynnwys apeliadau y penderfynir arnynt ar sail sylwadau ysgrifenedig) gael ei hategu gan ddatganiad gwirionedd yn unol â gofynion y Rheolau Trefniadaeth Sifil sydd mewn grym am y tro (Cwestiwn 18-11 o'r Ymgynghoriad).***

18.56 Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 35 o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil yn nodi bod yn rhaid i adroddiadau arbenigol gael eu dilysu gan "... a statement of truth in the following form

—

I confirm that I have made clear which facts and matters referred to in this report are within my own knowledge and which are not. Those that are within my own knowledge I confirm to be true. The opinions I have expressed represent my true and complete professional opinions on the matters to which they refer.<sup>25</sup>

18.57 Yn ein Papur Ymgynghori, cyfeiriwyd at y cyfarwyddiadau mewn llawlyfrau canllawiau proffesiynol, a oedd yn awgrymu y dylid defnyddio datganiad tebyg i ategu tystiolaeth arbenigol a ddefnyddir ar gyfer ymchwiliadau a gwrandawladau cynllunio ac achosion cynllunio eraill.<sup>26</sup> Cynigiwyd gennym hefyd y dylai'r gofyniad gael ei wneud yn ofyniad statudol, yn hytrach na pharhau i fod yn rheol arfer da.<sup>27</sup>

18.58 Ymatebodd 33 o ymgynghoreion i'r cynnig hwn; roedd 23 yn cytuno ag ef. Nododd Cymdeithas y Cyfreithwyr fod hyn yn cael ei wneud yn aml eisoes "on an informal basis and in accordance with advice from professional bodies". Awgrymodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol y byddai'r cynnig yn cynyddu "confidence in professional evidence".

18.59 Cymysg fu barn naw ymgynghorai. Tynnodd yr Arolygiaeth Gynllunio – sydd â phrofiad penodol o gynnal ymchwiliadau – sylw at dri phrif bryder ynghylch y cynnig, sef:

- 1) yn anawsterau sy'n gysylltiedig â diffinio "expert";

<sup>25</sup> Rheolau Trefniadaeth Sifil, Cyfarwyddyd Ymarfer, para 3.3.

<sup>26</sup> Papur Ymgynghori, paragraffau 18.86 i 18.87.

<sup>27</sup> Papur Ymgynghori, para 18.88.

- 2) canlyniadau methu â chynnwys datganiad gwirionedd, o gofio anallu'r Arolygiaeth Gynllunio i wrthod derbyn tystiolaeth;<sup>28</sup>
  - 3) yn anawsterau sy'n gysylltiedig â sicrhau yr ystyrir bod tystiolaeth arbennig yn bwysicach na thystiolaeth a gyflwynwyd heb y datganiad gwirionedd atodedig.
- 18.60 Rydym yn cytuno â'r pryderon sy'n cael eu mynegi. Mae cynnwys datganiad gwirionedd gan unigolyn proffesiynol sy'n rhoi tystiolaeth mewn ymchwiliad cynllunio yn ddatblygiad cymharol ddiweddar ac yn ddiau dylid annog hynny. Yn wir, gellir dadlau mai hyder tystion yn eu harbenigedd eu hunain, sy'n ddigon i gyfiawnhau cynnwys datganiad tebyg i'r hyn a nodwyd uchod, sy'n gwneud iddynt sefyll allan fel arbenigwyr, yn hytrach nag fel arall. Mae profiad yn awgrymu bod nifer o dystion mewn ymchwiliadau cynllunio y mae eu harbenigedd yn ansicr, ac y gall eu tystiolaeth, felly, fod o werth cyfyngedig, ond mater i'r arolygydd benderfynu arno yw hwnnw.
- 18.61 At hynny, gall problemau penodol godi mewn perthynas ag apeliadau y penderfynir arnynt ar sail sylwadau ysgrifenedig, lle nad oes unrhyw gyfle i herio arbenigedd tybiedig tyst.
- 18.62 Felly, rydym yn cytuno y dylid annog pob tyst (gan hepgor y gair "proffesiynol" lle y bo'n briodol) i gyflwyno datganiad gwirionedd, ond na ddylid ei wneud yn ofniad statudol.

#### **Argymhelliad 18-11.**

**Argymhellwn y dylai canllawiau sy'n ymwneud ag ymchwiliadau ac apeliadau cynllunio annog personau yn gryf i gynnwys datganiad gwirionedd wedi'i eirio'n briodol mewn unrhyw ddatganiad tyst (gan gynnwys mewn perthynas ag apeliadau y penderfynir arnynt ar sail sylwadau ysgrifenedig).**

***Cynigiwyd dros dro gennym y dylid ymhelaethu ar y pŵer i wneud gorchmynion ynghylch costau partiön mewn achosion, a geir yn adran 322C(6) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd, er mwyn nodi'n glir mai dim ond os bydd parti mewn apêl wedi ymddwyn yn afresymol a bod yr ymddygiad afresymol wedi achosi i bartiön eraill fynd i gostau diangen neu wastraffus y dylid gwneud gorchmyn o'r fath (Cwestiwn 18-12 o'r Ymgynghoriad).***

- 18.63 Yn ein Papur Ymgynghori, nodwyd gennym, mewn perthynas ag ymchwiliadau ac achosion eraill, fod adran 322C(6) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion ynghylch costau'r partiön, ac ynghylch y parti a fydd yn eu talu. Nodwyd gennym, er gwaethaf geiriad cyffredinol y ddarpariaeth hon, fod arfer hirsefydlog

<sup>28</sup> Noder y gall unrhyw barti â diddordeb wneud sylwadau.



wedi'i gwneud yn glir mai dim ond os bydd un parti wedi ymddwyn yn afresymol gan achosi i barti arall fynd i gostau diangen neu wastraffus y dyfernir costau.<sup>29</sup>

- 18.64 Cynigiwyd dros dro gennym y dylid ymgorffori'r egwyddor hon yn y Bil.
- 18.65 Ymatebodd 29 o ymgynghoreion i'r cwestiwn hwn, gan gynnwys y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, yr Arolygiaeth Gynllunio a PEBA. Roedd pob un ohonynt yn cytuno â'r cynnig.
- 18.66 Awgrymodd y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol:
- It would be beneficial to identify which circumstances could be considered “unreasonable” and this should include decisions made against officer recommendation. This would ensure spurious or political decisions are eliminated. Whilst we recognise the planning process is democratic, applicants for controversial development will routinely avoid periods leading up to local elections.
- 18.67 Caiff penderfyniad i wrthod rhoi caniatâd a gosod amodau – gan gynnwys pan fydd y swyddogion wedi argymhell fel arall – ei ategu bob amser gan ddatganiad o resymau. A nodwyd gennym fod Goruchaf Lys wedi cadarnhau yn ddiweddar y dylai awdurdod sy'n rhoi caniatâd yn erbyn argymhelliad swyddogion bob amser gynnwys datganiad hefyd.<sup>30</sup> Dylai'r gofynion hynny beri i awdurdodau ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig a lleihau'r problemau sy'n achosi pryder i'r Gymdeithas.
- 18.68 Dadleuodd Cyfeillion y Ddaear Cymru y dylid nodi'n glir yn y ddeddfwriaeth na fydd yn rhaid i bartïon rheol 6 – hynny yw partiön (megis grwpiau amwynder) heblaw'r apelydd a'r awdurdod cynllunio, y rhoddir statws arbennig iddynt weithiau gan yr Arolygiaeth – dalu costau. Nodwn, yn ymarferol, mai dim ond yn anaml iawn y mae angen i bartïon rheol 6 dalu costau partiön eraill. Fodd bynnag, o dan amgylchiadau penodol, gall fod yn briodol iddynt wynebu'r posibilrwydd o orfod talu costau o'r fath a gallai breinryddid cyffredinol rhag dyfarniadau costau alluogi rhai partiön rheol 6 i gamddefnyddio eu statws. Rydym yn argymhell y dylai'r egwyddor hon gael ei chynnwys yn y Bil.

---

<sup>29</sup> Papur Ymgynghori, para 18.90. Gweler hefyd Llywodraeth Cymru, *Llawlyfr Rheoli Datblygu* (Mai 2017), Adran 12 Atodiad: *Dyfarnu Costau* (sy'n disodli Cylchlythyr 23/93 y Swyddfa Gymreig *Awards of Costs incurred in Planning and Other (Including Compulsory Purchase Order) Proceedings*).

<sup>30</sup> *R (CPRE Kent) v Dover DC* [2018] 1 WLR 108, SC, yn unol â'r Arglwydd Carnwath; gweler **paragraffau 8.25, 8.226**.

### Argymhelliad 18-12.

Argymhellwn y dylid ailddatgan y pŵer i wneud gorchmynion ynglŷn â chostau partïon mewn achosion, a geir yn adran 322C(6) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd, ar ffurf ddiwygiedig er mwyn nodi'n glir mai dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y caiff gorchymyn o'r fath ei wneud:

- (1) mae parti mewn apêl wedi ymddwyn yn afresymol;
- (2) mae ymddygiad afresymol wedi achosi i bartïon eraill fynd i gostau diangen neu wastraffus.

### CYMHWYSO DARPARIAETHAU YN NEDDF IECHYD Y CYHOEDD 1936

*Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r Cod Cynllunio gynnwys darpariaethau sy'n cyfateb i'r rhai a geir yn adrannau 276, 289 a 294 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936, i fod yn gymwys i achosion lle mae'r awdurdod yn ymgymryd â gwaith sy'n ofynnol gan hysbysiadau dirwyn i ben, hysbysiadau gorfodi, hysbysiadau cyfnewid coed a hysbysiadau tir blêr y golwg (Cwestiwn 18-13 o'r Ymgynghoriad).*

- 18.69 Yn ein Papur Ymgynghori nodwyd gennym fod gwahanol ddarpariaethau o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn cyfeirio at Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936.<sup>31</sup> Diddymwyd y rhan fwyaf o Ddeddf 1936, ond mae rhai darpariaethau mewn grym o hyd. Mae adran 276 yn cynnwys pwerau awdurdod lleol i werthu deunyddiau a symudwyd wrth gyflawni gwaith, mae adran 289 yn cynnwys y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i feddiannydd unrhyw eiddo beidio ag atal gwaith rhag cael ei wneud ac mae adran 294 yn cyfyngu ar atebolrwydd landlordiaid ac asiantau mewn perthynas â chostau y gellir eu hadennill. Awgrymwyd gennym y dylid ymgorffori'r darpariaethau hyn – sydd gyda'i gilydd yn cyfrif am ddim mwy na phum is-adran – yn y Bil Cynllunio, er mwyn osgoi'r angen i gyfeirio at Ddeddf 1936.
- 18.70 O blith y 28 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 27 yn cytuno â'r cynnig ac roedd un yn ansicr. Nododd POSW a sawl awdurdod cynllunio ei bod yn hen bryd ymgorffori'r darpariaethau hyn. Nododd CBS Rhondda Cynon Taf gefnogaeth gref i'r cynnig, gan nodi “[that] by placing these provisions in the Bill it makes it clear and saves the time and expense reviewing other legislation to establish what the powers are applied by reference”.
- 18.71 Dadleuodd y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol y dylai pwerau awdurdod cynllunio i werthu deunyddiau a symudwyd wrth gyflawni gwaith fod yn ddarostyngedig i'r un lefel o reolaethau amgylcheddol â chyrrff nad ydynt yn rhai cyhoeddus. Ni welwn unrhyw reswm pam nad felly y bydd hi sut bynnag.

---

<sup>31</sup> Papur Ymgynghori, para 18.93; E.e. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a 178(3) (cyflawni gwaith sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi a chostau'r gwaith hwnnw), a 209(3) (gwaith sy'n ofynnol gan hysbysiad cyfnewid coed) ac a 219 (gwaith sy'n ofynnol gan hysbysiad tir blêr y golwg o dan adran 215).

### Argymhelliad 18-13.

Argymhellwn y dylai'r Bil Cynllunio ymgorffori darpariaethau sy'n cyfateb i'r rhai a geir ar hyn o bryd yn:

- (1) adran 276 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 (pŵer awdurdod cynllunio i werthu deunyddiau a symudwyd wrth gyflawni gwaith);
- (2) adran 289 o'r Ddeddf honno (y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i feddiannydd unrhyw eiddo beidio ag atal gwaith rhag cael ei gyflawni);
- (3) adran 294 o'r Ddeddf honno (cyfyngu ar atebolrwydd landlordiaid ac asiantau mewn perthynas â chostau y gellir eu hadennill),

i fod yn gymwys i achosion lle mae'r awdurdod yn ymgymryd â gwaith sy'n ofynnol gan hysbysiadau dirwyn i ben, hysbysiadau gorfodi, hysbysiadau cyfnewid coed a hysbysiadau tir blêr y golwg.

### DEHONGLI

***A oes unrhyw dermau yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 y mae angen eu diffinio (neu eu diffinio'n gliriach), heblaw'r rhai y cyfeirir atynt yn benodol mewn cwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad? (Cwestiwn 18-14 o'r Ymgynghoriad)***

- 18.72 Yn ogystal â'r diffiniadau arfaethedig a nodir uchod, gwahoddwyd awgrymiadau gan ymgynghoreion ynglŷn â geiriau neu ymadroddion eraill roeddent o'r farn y gallai fod yn ddefnyddiol eu diffinio yn y Bil.<sup>32</sup> O'r 25 o ymgynghoreion a ymatebodd, gwrthododd 13 wneud unrhyw awgrymiadau; awgrymodd y 12 arall 15 o eitemau rhyngddynt.
- 18.73 Nododd Arup fod angen "clear and concise definitions of terms in order to restrict ambiguity and promote consistent interpretation and (by extension) decision making between authorities". Gwnaeth hefyd rybuddio rhag prosesau "[which] introduce too many variables and...lead to conflicting interpretation and applications of legislative terms". A gwnaeth nifer o awgrymiadau ynglŷn â thermau y gallai fod yn ddefnyddiol eu diffinio, o bosibl. Rydym yn cytuno â'r safbwynt hwn, ond nid yw bob amser yn bosibl nac yn briodol diffinio termau mewn statudau, fel rydym wedi'i ddangos mewn perthynas â Chwestiwn 18-16 o'r Ymgynghoriad (diffinio "cwrtil").
- 18.74 Er ein bod yn ddiolchgar am y sylwadau a gyflwynwyd gan ymgynghoreion, nid yw'n briodol rhoi diffiniadau o'r termau awgrymedig yma, yn ein barn ni. Felly, nid ydym yn gwneud unrhyw argymhellion mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Ond er mwyn cyflawnder nodwn isod ein hymateb i bob un o'r awgrymiadau a wnaed.

### Adeiladau, peiriannau a pheirianwaith

- 18.75 Awgrymodd sawl ymgynghorai y dylid diffinio "adeilad" – yn arbennig i hepgor strwythurau, megis polion lampau a chategorïau penodol o beiriannau a

<sup>32</sup> Papur Ymgynghori, paragraffau 18.98 i 18.105.

pheirianwaith. Ar hyn o bryd mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu bod “building” yn cynnwys “structure” neu “erection”.<sup>33</sup> Ymddengys i ni fod hyn yn synhwyrol, am y byddai unrhyw ymgais i gynnwys rhai strwythurau ond hepgor eraill yn llawn cymhlethdodau.

- 18.76 Diffinnir “plant” yn y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir fel unrhyw beth sy’n debyg i beiriant; a diffinnir “machinery” yn yr un modd.<sup>34</sup> Ni ddiffinnir y naill derm na’r llall yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae Arup am gael diffiniad mwy manwl ond, ein barn ni, mae natur peiriannau a pheirianwaith yn golygu y byddai’n amhosibl rhoi diffiniad a all roi digon o sicrwydd a chwmpasu newidiadau mewn technoleg yn y dyfodol.
- 18.77 Mae Arup hefyd yn awgrymu eglurhad o wahanol dermau yn y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir – yn enwedig “ground level”, mewn perthynas â strwythurau tanddaearol, “renewing of services”, ac “enclosures”. Yn ein barn ni, gall y rhain fod yn bwyntiau priodol i’w hystyried pan gaiff y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir ei ddiwygio nesaf.

### Priffyrdd

- 18.78 Awgrymodd tri ymgynghorai y dylid cynnwys diffiniad o “briffordd”. Awgrymodd Arup, at ddibenion y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir, y gallai fod yn briodol hepgor mathau penodol o briffordd, er mwyn i ymgymerydd statudol allu codi ffensys sy’n uwch nag 1m ger troetffyrdd. Ac awgrymodd Sefydliad y Peirianwyr Sifil y byddai’n ddefnyddiol egluro maint priffordd ac, yn benodol, p’un a yw’n cynnwys y llain las.
- 18.79 Noda Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fod iddi yr un ystyr ag yn Neddf Priffyrdd 1980; ond mae’r Ddeddf honno, yn ei thro, ond yn darparu bod “highway” yn golygu priffordd gyfan neu ran ohoni, ac eithrio fferi neu ddyfrffordd.<sup>35</sup> Fodd bynnag, ceir corff helaeth a chymhleth o gyfraith achosion, sy’n dyddio’n ôl i’r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ynghylch beth yn union yw priffordd – a ph’un a yw’n cynnwys, er enghraifft, dir agored ar y naill ochr a’r llall.<sup>36</sup> Oherwydd y diffiniad statudol presennol, mae’r gyfraith achosion honno yn ei chyfanrwydd wedi’i hymgorffori’n awtomatig. Yn ein barn ni, ni fyddai’n fuddiol ceisio rhoi diffiniad mwy manwl.

### Termau eraill ag ystyr dechnegol

- 18.80 Noda’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fod sawl cyfeiriad yn y ddeddfwriaeth gynllunio at berson sy’n rheoli tir (“(having) control of land”). Mae adran 72(1)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn cyfeirio at “land under the control of the applicant...”, mae adran 179(4) yn cyfeirio at “a person who has control of or an interest in the land ...”; ac mae adran 187A(2)(b) yn cyfeirio at “any person having control of the land”. Mae paragraff (w) o Atodlen 4 i Orchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu 2012 yn cyfeirio at “the person who is in control of the land on which any

---

<sup>33</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 336.

<sup>34</sup> Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995, erthygl 1(2).

<sup>35</sup> Deddf Priffyrdd 1980, a 328.

<sup>36</sup> Crynhoir y gyfraith berthnasol ar nodweddion priffordd yn yr 21 o dudalennau cyntaf yn *Highway Law*, gan Stephen Sauvain, CF, 4ydd argraffiad, 2009.

existing establishment in question is located”. Ac mae Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 2015 yn cynnwys sawl cyfeiriad at “the person in control of the land to which the (application/direction/consent/claim form/notice) relates”.

- 18.81 Mae'n amlwg bod “rheoli” tir yn golygu rhywbeth llai na pherchenogaeth; ac mae'r Llysoedd wedi pwysleisio mewn nifer o achosion bod yn rhaid i'r broses o gadarnhau pwy sy'n “rheoli” tir yn ddigonol i ddod o fewn unrhyw un o'r darpariaethau statudol hyn fod yn fater o ffaith a graddau.<sup>37</sup> Unwaith eto, rydym o'r farn y byddai'n anodd diffinio'n fwy manwl derm statudol sydd wedi magu ystyr sefydlog, er nad yn gwbl fanwl, dros flynyddoedd lawer.
- 18.82 Mae'r un peth yn wir yn achos termau megis “implementation of permission” a “commencement of development”. Bu'r ddau ohonynt yn destun cyfraith achosion, gan osod egwyddorion cyffredinol ac, yn ein barn ni, ni fyddai'n bosibl cynnig fformiwla statudol y mae'n anochel y byddai'n cael ei gymhwyso mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd ffeithiol.

### **Geiriau sy'n cael eu defnyddio fel arfer**

- 18.83 Gofynnodd dau awdurdod cynllunio am ddiffiniadau o “adjacent” ac “abutting”. Yn ein barn ni, geiriau Saesneg cyffredin yw'r rhain ac nid oes angen eu diffinio'n ffurfiol. Rydym yn derbyn yn llwyr y gall fod yn anodd pennu eu hunion ystyr mewn sefyllfaoedd penodol – megis lle mae ffiniau sawl eiddo yn agos at ei gilydd. Ond, nid ydym o'r farn y byddai diffiniad statudol yn fuddiol – mewn gwirionedd gallai olygu ei bod yn fwy anodd dehongli'r geiriau hyn mewn sefyllfaoedd syml.
- 18.84 Nododd Andrew Ferguson fod y term “ancillary” yn aml yn cael ei ddefnyddio mewn jargon cynllunio (ac fe'i defnyddir yn y Papur Ymgynghori) a bod y term hwn a'r term “incidental” yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol, sy'n anghywir. Mae'n awgrymu y gallai fod yn werth ystyried yn ofalus pa derm sy'n briodol ym mhob achos, neu ddiffinio ystyr y naill a'r llall.
- 18.85 Rydym yn cytuno bod y ddau air yn cael eu defnyddio lawer gwaith yn y ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth. Mae'r ddau ohonynt yn air Saesneg cyffredin; ystyr “ancillary” yw “subservient, subordinate (to)”; ac ystyr “incidental” yw “occurring or liable to occur in fortuitous or subordinate conjunction with something else of which it forms no essential part; casual.” Rydym yn amau, mewn rhai achosion, y gall y ddeddfwriaeth ddefnyddio'r naill lle y dylai ddefnyddio'r llall a chymerir pob gofal, wrth ddrafftio'r Cod, i sicrhau y cânt eu defnyddio'n gywir.
- 18.86 Yn ein barn ni, ni fyddai diffiniadau yn ddefnyddiol ar gyfer unrhyw un o'r termau a awgrymwyd uchod ac, felly, nid ydym yn argymhell y dylid rhoi diffiniad ohonynt o fewn y Cod.

---

<sup>37</sup> Gweler er enghraifft *George Wimpey Ltd v New Forest DC* (1979) 250 EG 249.

## Argymhelliad 18-14.

Nid ydym yn argymhell ddylai'r Bil roi unrhyw ddiffiniadau pellach o'r termau, heblaw'r rhai a argymhellir isod.

***Cynigiwyd dros dro gennym y dylai: (1) darpariaethau'r fersiwn Saesneg o'r Bil sy'n cyfateb i adrannau 55, 171, 183, 196A a 214B ac Atolden 3 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael eu llunio drwy gyfeirio at "dwelling", yn hytrach na "dwellinghouse"; a (2) yr adran ddehongli o'r Bil gynnwys diffiniad o'r term "annedd", i'r perwyl ei fod yn cynnwys tŷ a fflat (Cwestiwn 18-15 o'r Ymgynghoriad).***

- 18.87 Yn ein Papur Ymgynghori, nodwyd gennym fod y term "dwellinghouse" yn cael ei ddefnyddio mewn sawl man mewn deddfwriaeth gynllunio, er nad yw ei ystyr yn glir.<sup>38</sup> Yn benodol, mewn rhai darnau o is-ddeddfwriaeth mae wedi'i ddiffinio i gynnwys fflat; mewn eraill mae wedi'i ddiffinio i hepgor fflat; ac yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ei hun (o leiaf mewn perthynas â Chymru) nid yw wedi'i ddiffinio o gwbl.
- 18.88 Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r term "dwellinghouse" gael ei ddisodli gan y term "dwelling" sy'n fwy cyffredin. Awgrymwyd gennym na fyddai'n briodol diffinio'r term "dwelling" ond y dylid gwneud yn eglur ei fod yn cynnwys tŷ a fflat.<sup>39</sup>
- 18.89 O'r 33 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 32 yn cytuno â'n cynnig ac roedd un yn ansicr. Dywedodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol ac Alan Archer fod ein cynnig yn cyflwyno "a very persuasive case for the rationalisation of the differing definitions." Roedd PEBA o'r farn bod "the proposed definition of "dwelling" is a sensible standardisation of the meaning of these terms". Dywedodd CBS Rhondda Cynon Taf wrthym fod "the clarification that a dwelling includes both a house and a flat is welcomed".
- 18.90 Gofynnodd Cyngor Dinas Caerdydd a allai fod canlyniad anfwriadol lle y gall fflat ennill rhai hawliau datblygu a ganiateir.<sup>40</sup> Rydym yn cytuno bod hyn yn ganlyniad posibl; ond rydym o'r farn, wrth ddiwygio neu gydgrynhoi'r darpariaethau perthnasol sy'n ymwneud â datblygu a ganiateir, y byddai'n bosibl cyflwyno eithriadau penodol mewn perthynas â fflatiau lle y bo'n briodol.

<sup>38</sup> Papur Ymgynghori, paragraffau 18.106 i 18.127.

<sup>39</sup> Gweler Rheoliadau Adeiladu 2010, rheoliad 2.

<sup>40</sup> Hawliau datblygu a ganiateir o dan Orchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995, Atodlen 2, mae Rhan 1 a Rhan 24 ond yn gymwys i "dwellinghouses" ar hyn o bryd.

## Argymhelliad 18-15.

### Argymhellwn y dylai:

- (1) darpariaethau'r fersiwn Saesneg o'r Bil sy'n cyfateb i adrannau 55, 171, 183, 196A a 214B ac Atodlen 3 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael eu llunio drwy gyfeirio at "dwelling", yn hytrach na "dwellinghouse";
- (2) yr adran ddehongli o'r Bil gynnwys diffiniad o'r term "annedd", i'r perwyl ei fod yn cynnwys tŷ neu fflat.

## DIFFINIAD O "GWRTEL"

***Ein barn dros dro oedd y dylai'r Bil gynnwys darpariaeth i'r perwyl mai cwrtil adeilad yw'r tir sydd â chysylltiad agos ag ef, ac y dylid penderfynu ar y cwestiwn ynghylch p'un a yw strwythur o fewn "cwrtil" adeilad gan roi sylw i'r canlynol: (1) 'cynllun' ffisegol yr adeilad, y strwythur, a'r adeiladau a'r tir o'i amgylch; (2) perchenogaeth o'r adeilad a'r strwythur yn y gorffennol a'r presennol; a (3) eu swyddogaeth a'r defnydd a wneir neu a wnaed ohonynt, yn y gorffennol a'r presennol (Cwestiwn 18-16 o'r Ymgynghoriad).***

- 18.91 Mae'r term "cwrtil" yn cyfeirio at dir sydd â chysylltiad ag adeilad. Cyfeirir ato fwy na 1,500 o weithiau mewn amrywiaeth eang o ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, ac yn y cyd-destun cynllunio ymddengys yng nghyd-destun y diffiniad o adeilad rhestredig, a chwmpas rhai hawliau datblygu a ganiateir.
- 18.92 Nodwyd gennym yn ein Papur Ymgynghori nad yw'r term wedi'i ddiffinio yn y statud, sy'n arwain at ddiffyg tryloywder ac yn creu dryswch ar gyfer ymarferwyr a defnyddwyr y system gynllunio.<sup>41</sup> Trafodwyd gennym gymhlethdod diffinio term a ddefnyddir mewn cynifer o gyd-destunau, ond awgrymwyd gennym y gallai fod yn ddefnyddiol ymgorffori mewn diffiniad anghyfyngol y ffactorau a nodwyd gan y Llys Apêl yn *Attorney-General v Calderdale*<sup>42</sup> fel y rhai y dylid eu hystyried wrth benderfynu p'un a yw strwythur neu wrthrych o fewn cwrtil strwythur arall ai peidio.<sup>43</sup>
- 18.93 Ymhlith y 31 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cynnig hwn, roedd amrywiaeth eang o safbwyntiau. Roedd yr Arolygiaeth Gynllunio yn cytuno â'r hyn a gynigiwyd a thynnodd sylw at y penderfyniad diweddar yn *Burford v Secretary of State and Test Valley BC*, a gadarnhaodd y meini prawf a osodwyd yn *Calderdale* yn achos adeilad anrhestredig.<sup>44</sup> Roedd PEBA o'r farn bod y dull gweithredu a awgrymwyd gennym yn eglurhad synhwyrol o gysyniad anodd ei ddiffinio. Roedd Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol yn cytuno gan nodi ei bod yn bwysig bod y diffiniad yn edrych at "... principles only and that each case continue to be determined individually".

<sup>41</sup> Papur Ymgynghori, paragraffau 18.134 i 18.138.

<sup>42</sup> (1983) 46 P. & C.R. 399, ar dud. 407. Nodir y tri ffactor penderfynol yng Nghwestiwn 18-16 o'r Ymgynghoriad.

<sup>43</sup> Papur Ymgynghori, paragraffau 18.139 i 18.142.

<sup>44</sup> [2017] EWHC 1493 (Gweinyddol).

Awgrymodd CBS Rhondda Cynon Taf hefyd “prescribing the factors that should be considered when making a determination as to the curtilage of a building will assist both the layperson and planning practitioner”.

- 18.94 Roedd pedwar ymgynghorai yn cytuno, mewn egwyddor, y byddai'n ddymunol egluro ystyr “curtilage” os yw'n bosibl, ond gwnaethant fynegi amheuan ynghylch p'un a fyddai'n diffiniad a awgrymwyd yn llwyddo i wneud hynny mewn gwirionedd. Roedd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yn amau a ellid cymhwyso ffactorau *Calderdale* at “... the many different instances where the definition of the curtilage comes into play”, gan ddadlau bod y cyfeiriad at gynllun ffisegol, perchenogaeth, defnydd a swyddogaeth yn ymddangos braidd yn gul. Awgrymodd CBS Castell-nedd Port Talbot fod y tri maen prawf yn ddefnyddiol, ond na ddylid diystyru materion eraill. Cytunwn.
- 18.95 Canolbwyntiodd sawl ymgynghorai ar berthnasedd y gair “cwrtil” i'r diffiniad o adeilad rhestredig a dim byd arall. Derbyniwn fod hyn yn un agwedd ar y mater, ond byddai'r diffiniad o “listed building”, a geir yn adran 1(5) o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig ar hyn o bryd ac sy'n cyfeirio at gwrtil yr adeilad yn y rhestr, yn parhau mewn grym p'un a gâi'r term “cwrtil” ei ddiffinio ai peidio. Nodwyd gennym hefyd fod sawl ymgynghorai wedi awgrymu, yn y cyd-destun hwn, y byddai'n ddefnyddiol pe bai rhestriad gwreiddiol adeilad yn diffinio'r cwrtil ar y dyddiad hwnnw. Rydym yn cytuno y byddai'n hynny'n ddefnyddiol ac y gellid ei wneud ar sail anstatudol.<sup>45</sup> Ond nid yw'n diwallu'r angen am ddiffiniad ehangach o “gwrtil”.
- 18.96 Roedd Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad yn anghytuno'n gryf â'r diffiniad a gynigiwyd gennym ac awgrymodd fod y meini prawf sydd wedi'u gosod yn *Calderdale* “[are] black or white”, ac nad ydynt yn ffactorau i'w pwysu a'u mesur. Yn anffodus, nid yw hynny'n wir bob amser. Mewn perthynas â materion perchenogaeth, er enghraifft, gall patrymau perchenogaeth amrywio dros y blynyddoedd, gyda gwahanol rannau o lain o dir yn eiddo i wahanol aelodau o'r teulu. Felly, mae'n amhosibl llunio diffiniad manwl gywir weithiau.
- 18.97 Awgrymodd Allan Archer mai'r cwestiwn allweddol yw nid p'un a yw strwythur o fewn cwrtil un arall, ond yn hytrach maint cwrtil adeilad – er enghraifft, at ddibenion penderfynu ar hawliau datblygu a ganiateir (er enghraifft, codi tŷ gwydr o fewn cwrtil plasty). Fodd bynnag, hyd yn oed yn y cyd-destun hwnnw, mae angen canolbwyntio ar y cwestiwn ynghylch p'un a yw lleoliad y strwythurau arfaethedig o fewn cwrtil y tŷ – gall nodi graddau cyffredin ffin y cwrtil mewn termau haniaethol fod yn anodd os nad amhosibl.
- 18.98 Wrth gwrs, mae'n hawdd dweud y dylai diffiniad o'r fath fod mewn canllawiau, neu y dylid gadael i ddefnyddwyr ganfod y diffiniad eu hunain. A derbyniwn yn llwyr na all y diffiniad o “gwrtil” a awgrymir fod yn ddiffiniol. Fodd bynnag, fel y nodwyd gennym, ymddengys y gair “cwrtil” mewn gwahanol fannau mewn deddfwriaeth gynllunio. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o dermau technegol a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth, yn ogystal â bod yn anghyfarwydd i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr, mae'n debygol o fod yn gwbl annealladwy. Felly, yn ein barn ni, dylai fod ganddo ddiffiniad yn y Bil (a fyddai

---

<sup>45</sup> Fel sy'n digwydd fel arfer yn achos henebion: gweler *R v Bovis Construction Ltd* [1994] Crim LR 938, CA; hefyd *R v Jackson*, 5 Mai 1994, Lawtel AC 0001096



hefyd yn gymwys i is-ddeddfwriaeth a wneir oddi tano). Nod ein hawgrym yw rhoi syniad bras o ystyr y gair, wedi'i ddilyn gan grynoded o'r egwyddorion pwysicaf a gafwyd o gyfraith achosion.

- 18.99 Yn olaf, awgrymodd Andrew Ferguson y gallai fod yn ddefnyddiol egluro nad yw "domestic curtilage" yn ddefnydd o dir, fel y'i hawgrymir yn aml. Rydym yn ymwybodol o'r gamdybiaeth y mae Mr Ferguson yn cyfeirio ati ond credwn fod cyfraith achosion yn glir bod defnyddio tir agored yng nghwrtil adeilad yr un peth â defnyddio'r adeilad ei hun. Ar hyn o bryd nid ydym yn gweld sut y gellid ymgorffori egwyddor gyfreithiol o'r fath yn hawdd fel darpariaeth statudol.

#### **Argymhelliad 18-16.**

**Argymhellwn y dylai'r Bil gynnwys darpariaeth i'r perwyl mai cwrttil adeilad yw'r tir sydd â chysylltiad agos ag ef ac, wrth benderfynu a yw strwythur o fewn "cwrttil" adeilad, y dylai'r ffactorau i'w hystyried gynnwys y canlynol:**

- (1) 'cynllun' ffisegol yr adeilad, y strwythur, a'r adeiladau a'r tir o'i amgylch;
- (2) perchenogaeth o'r adeilad a'r strwythur yn y gorffennol a'r presennol;
- (3) eu swyddogaeth a'r defnydd a wneir neu a wnaed ohonynt, yn y gorffennol a'r presennol.

#### **DIFFINIO "AMAETHYDDIAETH" A THERMAU CYSYLLTIEDIG**

***Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r adran ddehongli o'r Bil gynnwys diffiniadau o'r termau canlynol: (1) "amaethyddiaeth" ac "amaethyddol", yn debyg i'r diffiniad a geir yn adran 336 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd, ynghyd â chyfeiriad at ffermio yn unol â'r rhai a geir yn adrannau 147 a 171 ar hyn o bryd; a (2) "tir amaethyddol" ac "uned amaethyddol", yn debyg, fwy neu lai, i'r diffiniad yn Rhan 6 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir; a chynigiwyd dros dro gennym na ddylid rhoi unrhyw ddiffiniadau pellach o'r termau hynny mewn perthynas â hysbysiadau prynu a hysbysiadau malltod (Cwestiwn 18-17 o'r Ymgynghoriad).***

- 18.100 Yn ein Papur Ymgynghori, nodwyd gennym fod y termau "agriculture"<sup>46</sup> ac "agricultural"<sup>47</sup> wedi'u diffinio yn adran 336 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990:

"agriculture" includes horticulture, fruit growing, seed growing, dairy farming, the breeding and keeping of livestock (including any creature kept for the production of food, wool, skins or fur, or for the purpose of its use in the farming of land), the use of land as grazing land, meadow land, osier land, market gardens and nursery grounds, and the use of land for woodlands

<sup>46</sup> A ddefnyddir yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 55, 147 a 315, Atodlenni 5 a 9.

<sup>47</sup> A ddefnyddir (ac eithrio mewn termau megis "agricultural unit") yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 171.

where that use is ancillary to the farming of land for other agricultural purposes, and “*agricultural*” shall be construed accordingly.<sup>48</sup>

- 18.101 Diffinnir “agricultural” hefyd yn adran 147 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 at ddibenion adrannau 145, 146 a 147 (hysbysiadau prynu), ac yn adran 171, at ddibenion Pennod 2 o Ran 6 (hysbysiadau malltod). Yn y ddau achos, mae’r ddarpariaeth yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn mewnforio’r diffiniad o “agricultural” yn adran 109 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1947, sydd wedi’i eirio’n union debyg i’r diffiniad yn adran 336 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Ceir diffiniadau eraill o “agricultural land” yn adran 147, unwaith eto drwy gyfeirio at Ddeddf 1947; ac mae’r termau “agricultural unit”, “agricultural tenant” ac “agricultural holding” hefyd wedi’u diffinio yn y Ddeddf, mewn rhai achosion drwy gyfeirio at statudau eraill.
- 18.102 Awgrymwyd gennym y dylid dwyn y gwahanol ddiffiniadau o “amaethyddiaeth” a thermau cysylltiedig ynghyd yn un man, ac y dylai’r diffiniadau a ddefnyddir gyfateb, fwy neu lai, i’r rhai a geir mewn deddfwriaeth sy’n bodoli eisoes. Byddai’r diffiniadau hynny hefyd yn gymwys at ddibenion dehongli’r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir.
- 18.103 O’r 27 o ymgylgoreion a ymatebodd i’r cwestiwn hwn, roedd pawb ond un yn cytuno â’n cynnig.
- 18.104 Roedd tri awdurdod cynllunio yn amau a ddylai’r diffiniad gynnwys neu hepgor pori ceffylau yn benodol. Mae’r “use of land as grazing land” eisoes wedi’i gynnwys yn benodol; os mai’r awgrym yw y dylid cynnwys defnydd o’r fath, er mwyn iddo ddod o dan reolaeth gynllunio, ymddengys y byddai hynny yn newid mewn polisi y tu hwnt i gwmpas yr ymarfer presennol. Gofynnodd Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol a ddylid cynnwys rheoli tir er mwyn sicrhau manteision ecolegol. Mae’r diffiniad presennol yn gynhwysol, yn hytrach na chyfyngol; gellid cynnwys gweithgareddau o’r fath, yn dibynnu ar ffeithiau pob achos.
- 18.105 Roedd Keith Bush CF yn anghytuno â’n cynnig ar y sail bod:
- “amaethyddiaeth” yn derm cyffredin a dylid ei ddehongli ar sail synnwyr cyffredin ac yn unol â phenderfyniadau blaenorol y llysoedd.
- 18.106 Yn ein barn ni, am fod “amaethyddiaeth” eisoes wedi’i diffinio (o leiaf yn rhannol) mewn statud, ni fyddai’n fuddiol gwyro oddi wrth hyn ac nid ydym yn cynnig unrhyw ddiffiniad o gwbl. Roedd ein hawgrym ond yn golygu tacluso’r nifer fawr o ddehongliadau sy’n bodoli eisoes.

---

<sup>48</sup> Papur Ymgynghori, paragraffau 18.146 i 18.158.

### Argymhelliad 18-17.

Argymhellwn y dylai'r adran ddehongli o'r Bil gynnwys diffiniadau o'r termau canlynol:

- (1) "amaethyddiaeth" ac "amaethyddol", yn debyg i'r diffiniad a geir yn adran 336 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd, ynghyd â chyfeiriad at ffermio yn unol â'r rhai a geir yn adrannau 147 a 171 ar hyn o bryd;
- (2) "tir amaethyddol" ac "uned amaethyddol", yn debyg, fwy neu lai, i'r diffiniad yn Rhan 6 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir;

ac argymhellwn na ddylid rhoi unrhyw ddiffiniadau pellach o'r termau hynny mewn perthynas â hysbysiadau prynu na hysbysiadau malltod.

### DARPARIAETHAU AMRYWIOL

*Cynigiwyd dros dro gennym na ddylid cynnwys y darpariaethau canlynol, yr ymddengys eu bod yn ddarfodedig neu'n ddiangen, yn y Cod Cynllunio: adran 314 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (dosrannu costau gan gynghorau sir); adran 335 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (y gydberthynas rhwng deddfwriaeth gynllunio a deddfwriaeth arall a oedd mewn grym yn 1947); ac Atodlen 16 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (darpariaethau'r Ddeddf a gymhwyswyd neu a addaswyd gan amrywiol ddarpariaethau eraill yn y Ddeddf) (Cwestiwn 18-18 o'r Ymgynghoriad).*

18.107 Yn ein Papur Ymgynghori nodwyd gennym dair darpariaeth yr ymddengys eu bod yn ddarfodedig:

- 8) adran 314 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n galluogi cyngor sir i gyfarwyddo y gellir trin costau penodol yr aed iddynt ganddo fel costau yr aed iddynt mewn perthynas â rhan o'i ardal yn unig, fel y gellir eu hadlewyrchu'n briodol mewn hysbysiadau galw am dalu'r dreth gyngor ar wahanol rannau o'r sir;
- 9) adran 335 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n ymwneud â'r gydberthynas rhwng y system rheoli cynllunio fodern a deddfwriaeth a oedd mewn grym pan basiwyd Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947 neu tua'r adeg honno;
- 10) Rhannau 1 a 2 o Atodlen 16 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n ymwneud ag adrannau 314 (costau cynghorau sir) ac adran 315 o'r Ddeddf (mwynau); Rhan 3 sy'n ymwneud ag adran 315 ac adran 318 (eiddo eglwysig); a Rhan 6 sy'n ymwneud ag adran 318.

18.108 Awgrymwyd gennym nad oes angen ailddatgan y darpariaethau hyn yn y Bil.

- 18.109 Roedd pob un o'r 24 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig dros dro mewn egwyddor.
- 18.110 Fodd bynnag, tynnodd Allan Archer sylw at broblem a allai godi mewn perthynas â'r diddymiadau a awgrymir yn Atodlen 16, a oedd o gymorth mawr. Yn ein Papur Ymgynghori, cynigiwyd gennym y dylid ailddatgan y darpariaethau sy'n ymwneud ag eiddo Eglwys Loegr yn adran 318 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, am eu bod yn gymwys mewn rhai plwyfi ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr.<sup>49</sup> Mae adran 318 yn cynnwys dau gyfeiriad at Atodlen 16. Dim ond os yw'r eiddo dan sylw wedi'i leoli "elsewhere than in Wales",<sup>50</sup> a'i fod yn anghymwys felly, y mae'r cyfeiriad cyntaf, at Ran 6 o Atodlen 16, yn gymwys. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gyfyngiad o'r fath yn gymwys yn achos yr ail gyfeiriad, at Ran 3 o Atodlen 16.<sup>51</sup> Felly, ymddengys y byddai angen cadw Rhan 3 o'r Atodlen ar ryw ffurf neu'i gilydd, ac rydym yn argymhell y dylid gwneud hynny.

#### **Argymhelliad 18-18.**

**Argymhellwn na ddylid cynnwys y darpariaethau canlynol, yr ymddengys eu bod yn ddarfodedig neu'n ddiangen, yn y Bil Cynllunio:**

- (1) **adran 314 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (dosrannu costau gan gynghorau sir);**
- (2) **adran 335 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (y gydberthynas rhwng deddfwriaeth gynllunio a deddfwriaeth arall a oedd mewn grym yn 1947);**
- (3) **Atodlen 16 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (darpariaethau'r Ddeddf a gymhwyswyd neu addaswyd gan amrywiol ddarpariaethau eraill yn y Ddeddf), heblaw Rhan 3, y dylid ei chadw mewn perthynas â'r ddarpariaeth sy'n ailddatgan adran 318 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.**

---

<sup>49</sup> Papur Ymgynghori, paragraffau 18.48 – 18.49.

<sup>50</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 318(2)(a).

<sup>51</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 318(4), sy'n ymwneud â symiau sy'n daladwy mewn perthynas ag eiddo eglwysig.